# BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN

**Dydd Mercher, 16 Rhagfyr 2020**

**10:00-11:30**

**Cynhaliwyd y cyfarfod dros Microsoft Teams**

| **Aelodau presennol:** | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Emyr Williams (EW) | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Dilwyn Williams (DOW) | Cyngor Gwynedd |
| Annwen Morgan (AM) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Ffion Johnstone (FfJ) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Enlli Thomas (ET) | Prifysgol Bangor |
| Sioned Rees (SR) | Llywodraeth Cymru |
| Sian Williams (SW) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Cyng. Dafydd Meurig (DM) | Cyngor Gwynedd |
| Sian Purcell (SP) | Medrwn Môn |
| Shan Morris (SM) | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Ffrancon Williams (FfW) | Adra |
| Cyng. Llinos Medi Huws (LlMH) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Neil Thomas (NT) | Heddlu Gogledd Cymru |

| **Yn mynychu:** | |
|---|---|
| Nonn Hughes (NH) | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| Dewi Jones (DWJ) | Cyngor Gwynedd |
| Dafydd Gibbard (DG) | Cyngor Gwynedd |
| Ned Michael (NM) | Cyngor Sir Ynys Môn |

| **Ymddiheuriadau:** | |
|---|---|
| Siobhan Adams | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Bethan Russell Williams | Mantell Gwynedd |
| Yr Athro Andrew Edwards | Prifysgol Bangor |
| Cyng. Dyfrig Siencyn | Cyngor Gwynedd |

| | |
|---|---|
| Aled Jones-Griffith | Grŵp Llandrillo Menai |

| Rhif Eitem | Nodiadau | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| 1) | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>Croesawyd: Dafydd Gibbard a Ned Michael ar gyfer eitem 4 o'r agenda. Enlli Thomas ar ran yr Athro Andrew Edwards, Prifysgol Bangor. Y Cyng. Dafydd Meurig ar ran Cyng. Dyfrig Siencyn.<br><br>Yn ogystal croesawyd Neil Thomas o Heddlu Gogledd Cymru, sydd bellach wedi cymryd lle Richard Green fel aelod o'r BGC.<br><br>Nodwyd ar gychwyn y cyfarfod fod rhaid i gynrychiolwyr Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn adael y cyfarfod am 11yb, gan fod cyfarfod arall wedi ei drefnu gyda'r Llywodraeth. Yn ogystal nodwyd fod Ffion Johnstone yn gorfod gadael y cyfarfod am 11yb, gan fod cyfarfod arall wedi ei drefnu ar ei chyfer i drafod rhaglen brechu Covid_19. | | |
| 2) | **Cylch Gorchwyl**<br><br>Ni chynigwyd unrhyw newid / sylw i'r Cylch Gorchwyl. | | |
| 3) | **Cofnodion i'w cymeradwyo**<br><br>**Cyfarfod 30.09.20**<br><br>Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir | | |
| 4) | **Diweddariad gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn ar effaith ail gartrefi ar y farchnad gyfredol.**<br>Cylchredwyd adroddiadau gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn o flaen llaw. Nodwyd fod atodiad i adroddiad Cyngor Gwynedd wedi ei gynnwys ar ddiwedd y pecyn dogfennaeth.<br><br>**Gwynedd**<br><br>Cafwyd cyflwyniad gan Dilwyn Williams ar ran Cyngor Gwynedd. Adroddwyd fod y Cyngor wedi bod yn bryderus iawn am y mater ers peth amser. Yng Ngorffennaf 2019 bu i Gabinet y Cyngor gomisiynu gwaith ymchwil ar ran y Cyngor, yn benodol yn ymwneud a chartrefi gwyliau. Cyflwynwyd adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd ar 15 Rhagfyr gyda phedwar argymhelliad, a derbyniwyd hwy:<br><br>1. Galw ar y Llywodraeth i efelychu'r hyn sydd yn digwydd yn yr Alban a diwygio'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) er mwyn cynnwys dosbarth defnydd ychwanegol ar gyfer llety gwyliau tymor byr.<br>2. Galw am gyflwyno cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer llety gwyliau tymor byr fyddai'n gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol ei weithredu. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 3. Galw ar y Llywodraeth i newid ei safiad ac i weithredu i newid y Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol fel bod unrhyw dŷ annedd sydd ddim yn brif neu unig gartref i unigolyn (boed yn ail gartref neu'n dŷ a ddefnyddir at ddibenion llety gwyliau tymor byr) yn cael ei ddiffinio fel tŷ annedd er pwrpas trethu (a thrwy hynny yn talu unrhyw bremiwm Treth Cyngor a benderfynir arno'n lleol). Fe fyddai unrhyw lety gwyliau tymor byr sydd wedi derbyn hawl cynllunio pwrpasol ar gyfer y defnydd hynny yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer talu Treth Busnes Annomestig.<br>4. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Adran Amgylchedd mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet i ystyried sut y gellir defnyddio'r gwaith ymchwil yng nghyd-destun y fframwaith bolisi cynllunio lleol.<br><br>Cyfeiriwyd yn ogystal at gynllun gweithredu tai'r Cyngor fydd yn anelu i wario £77m, a hynny mewn cydweithrediad efo'u partneriaid o'r Cymdeithasau Tai.<br><br>**Ynys Môn**<br><br>Cafwyd cyflwyniad gan Annwen Morgan a Ned Michael ar ran Ynys Môn.<br><br>Nododd Ned eu bod yn ymateb i'r galw am dai yn lleol. Prif rwystr trigolion yw fforddiadwyedd, sy'n atal nifer rhag cael eu troed ar yr ysgol. Nodwyd cynnydd syfrdanol mewn prisiau tai, yn enwedig mewn rhai ardaloedd. Mynegwyd fod Ynys Môn yn rhannu'r un pryderon â Gwynedd ac yn amgaeedig roedd copi o lythyr a anfonwyd at Brif Weinidog Cymru i gyfleu eu pryderon.<br><br>Cyfeiriodd Ned at eu rhaglen ddatblygu rhaglen ddatblygu dros y 3 mlynedd nesaf, fydd yn ychwanegu cyfanswm o 176 o unedau at eu stoc dai. Mae'r cwestiwn yn parhau os fydd hyn yn ddigonol.<br><br>Yn dilyn cyflwyniadau'r ddau Gyngor holwyd os oes gweithred benodol i'r BGC. Cytunwyd i Emyr Williams ysgrifennu llythyr at y Llywodraeth sy'n cefnogi safbwyntiau'r ddau Gyngor, gan nodi pryder y Bwrdd am faterion llesiant yn y maes tai, ac effaith hir dymor y mater ar lesiant.<br><br>Nododd SR fod grŵp traws parti yn edrych ar y mater yn y Llywodraeth, o dan arweiniad Simon Brooks. | EW/NH | 03/2021 |
| 5) | **Diweddariad ar ymatebion y cyrff cyhoeddus i'r mater Gordwristiaeth**<br>Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi datblygu 4 cynllun adfer sy'n canolbwyntio ar ffrydiau gwaith Adfer yr Economi, Adfer | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyrchfan, ac Adfer Cymunedol / Cymdeithasol a Sefydliadol. Nodwyd yr heriau a godwyd yn sgil Covid e.e. Llanddwyn. Mewn perthynas â'r cynllun adfer cyrchfan - y pwrpas yw sefydlu fframwaith , ynghyd â chamau i fynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu busnesau twristiaeth a lletygarwch ers dechrau'r pandemig.<br><br>Adroddwyd fod sefyllfa debyg yng Ngwynedd a'u bod yn rhoi ystyriaeth i dwristiaeth gynaliadwy, gan roddi ystyriaeth i faterion tymor byr a'r tymor hir. Nodwyd yn ogystal eu bod yn cynnal trafodaethau gyda Pharc Cenedlaethol Eryri.<br><br>Holwyd os oedd pwysau ychwanegol wedi bod ar y gwasanaeth iechyd yn ystod cyfnodau prysuraf y pandemig. Adroddwyd fod yr adran man anafiadau wedi bod yn brysur. Nodwyd yn ogystal nad oeddent yn gwynebu amseroedd heriol yn ystod y gaeaf yn unig erbyn hyn, ond trwy gydol y flwyddyn. Awgrymwyd i gyfeirio at hyn yn y gwaith ar dwristiaeth gynaliadwy'r Cynghorau. Holwyd os oes tystiolaeth i gadarnhau'r effaith ar ein gwasanaethau cyhoeddus. Ystyriwyd fod tystiolaethu fel hyn yn bwysig.<br><br>Mae CNC wedi cynnal sgyrsiau efo Cyngor Sir Ynys Môn am ardaloedd fel Llanddwyn ac yn rhoi ystyriaeth i ddatrysiadau tymor byr a thymor hir. Maent wedi cydweithio gyda chymunedau. Cynigwyd i Gyngor Gwynedd hefyd fod yn rhan o'r trafodaethau. Nodwyd fod gwaith wedi cychwyn yng Nghoed y Brenin dros yr haf. CNC wedi cydweithio efo'r heddlu ac wedi dysgu o'r broses yma .<br><br>Cytunwyd i'r 2 Gyngor rannu canfyddiadau eu gwaith gyda'r BGC. Mynegwyd fod Gwynedd angen gweithio gyda'r Parc a CNC a phartneriaid eraill. Bydd yr adroddiadau yn gallu dod gerbron y BGC, pan fyddent yn barod i'w cyflwyno.<br><br>Nodwyd fod y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn edrych ar y mater dan sylw hefyd, o safbwynt tensiynau lleol. Bydd ganddynt dystiolaeth gymunedol, ac efallai o ddefnydd. | DW/ AM | |
| 6) | **Adroddiadau ar gynnydd blaenoriaethau'r Cynllun Llesiant**<br><br>Newidiwyd y drefn cyflwyno gan fod Ffion Johnstone angen gadael y cyfarfod yn fuan, i fynychu cyfarfod arall.<br><br>**Iechyd a Gofal – Ffion Johnstone**<br><br>Adroddwyd fod cyfarfod o'r is-grŵp wedi ei gynnal ar 18fed Dachwedd ac fe drafodwyd yr holl ffrydiau gwaith. Roedd gweithred ar Ffion ers y cyfarfod blaenorol, i ystyried sut i gynnwys mewnbwn iechyd meddwl. Mae Ffion wedi gwneud cyswllt efo Teresa Owen a Sam Watson o'r Bwrdd Iechyd yn y lle cyntaf, er mwyn trafod sut mae'r ffrwd iechyd meddwl yn cyd-fynd â'r gwaith cymunedol. Bydd Ffion hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r strwythur ar gyfer gweithredu. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Cynllun Gaeaf**<br>Cyfeiriwyd at arian sydd wedi ei ddarparu drwy'r Bartneriaeth Ranbarthol fydd yn cael ei ddefnyddio i gadw pobl yn eu cymunedau a'u cartrefi.<br><br>**Y gwaith Trawsffurfio**<br>Nodwyd mai Meilys Smith yw arweinydd y rhaglen. Mae gwaith ar droed i ail-leoli staff a chynnig gwasanaeth rhithiol. Y pwrpas yw cael un pwynt mynediad. Nodwyd fod camau positif wedi eu gwneud gan yr wyth tîm.<br><br>**Cell Intel**<br>Nodwyd fod Hannah Roberts o'r Bwrdd Iechyd yn arwain y gwaith a Nonn wedi bod yn cydlynu trefniadau. Mae trefniadau adrodd yn wythnosol wedi eu cytuno. Nodwyd fod y grŵp wedi gwneud gwaith da iawn a bod y wybodaeth yn ddefnyddiol iawn i nifer o'r partneriaid.<br><br>**Cynllun brechiad**<br>Cyfeiriwyd at  y cynllun brechiad a'r dosbarthiad mewn cyflenwadau bach i gychwyn. Nodwyd fod rhai pryderon wedi codi am y broses gyfathrebu. Bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio i ganllawiau JCVA. Mewn perthynas â'r drefn blaenoriaethu adroddwyd bydd cartrefi preswyl yn ei dderbyn yn gyntaf, wedyn staff iechyd.<br><br>**Cynllun Plant**<br>Adroddwyd fod arian o'r bidiau trawsffurfio yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cynllun 'No wrong door'. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn arwain ar y rhaglen yma.<br><br>Holodd DOW beth yw trefniadau cydweithio'r is-grŵp a sut maent yn ychwanegu gwerth at gynlluniau presennol trwy gydweithio. Cytunwyd i gael cyflwyniad byr arno tro nesaf gan nodi beth sydd wedi ei gyflawni ac er mwyn gwella dealltwriaeth aelodau'r BGC am y gwaith integreiddio.<br><br>Ychwanegodd Emyr fod angen i bob un o'r is-grwpiau roi ystyriaeth i'r gofyn uchod ac yn ogystal cadarnhau sut maent yn ymateb i'r briff gwreiddiol o'r Cynllun Llesiant gan amlygu beth sydd wedi ei gyflawni a'r effaith y mae wedi ei gael ar drigolion (neu ragwelir y bydd yn ei gael). | **Arweinyddion yr is-grwpiau** | **03/2021** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Cartrefi – Ffrancon Williams**<br><br>Pwrpas yr is-grŵp yw cynyddu cyflenwad tai arloesol. Nodwyd fod 5 safle wedi ei adnabod ar draws Ynys Môn a Gwynedd. O fewn y misoedd nesaf bydd modd dod i gasgliad os yw'r safleoedd yn hyfyw neu beidio, a bydd penderfyniad os fydd y safleoedd yn cael eu datblygu neu beidio. Mae' grŵp wedi ystyried pob safle sydd gyda cais chynllunio, sydd heb eu datblygu hyd yma.<br><br>Dangoswyd gwerthfawrogiad gan yr is-grŵp am y cytundeb gan y Cynghorau ac Adra i barhau i ariannu swydd Brenda Brighouse am gyfnod pellach o 6 mis. Nodwyd fod y swydd wedi gwneud gwahaniaeth i gynnydd gwaith yr is-grŵp.<br><br>Roedd saith safle ar y rhestr yn wreiddiol gyda'r berchnogaeth yn amrywio. Nodwyd fod dau o fewn perchnogaeth Grŵp Llandrillo a Menai. Rhoddwyd gweithred i Ffrancon Williams gysylltu gyda Grŵp Llandrillo a Menai i drafod dull gwahanol o osod tir- a chydweithio gyda phartneriaid heb fynd drwy'r farchnad agored.<br><br>Adroddwyd fod yr is-grŵp wedi derbyn gwybodaeth am ragdybiaethau ariannol gan y partneriaid. Bydd mewnbwn pellach gan swyddogion cyllid yn arwain at gysoni rhagdybiaethau ac yn gallu arwain at osgoi diystyru safleoedd.<br><br>Nodwyd unwaith yn rhagor fod gwaith yr is-grŵp yn dod i derfyn, a bod gwaith o tua 6 mis yn weddill. Adroddwyd fod y 6 mis diwethaf wedi gweld bwrlwm yn y maes tai. Rhoddwyd ystyriaeth gan yr is-grŵp i grant IHP4 y Llywodraeth. Nid oedd cynlluniau'r is-grŵp yn ddigon aeddfed ar gyfer cyflwyno cais grant y flwyddyn yma.<br><br>Dywedodd Dafydd Gibbard fod cydweithio da wedi digwydd, ond ei bod hi'n bwysig nad ydym yn dyblygu gwaith sydd eisoes ar y gweill gan y partneriaid. | **FfW** | **03/2021** |
| | **Newid Hinsawdd**<br><br>Mae grŵp bach o aelodau statudol y BGC wedi cyfarfod, ac adroddwyd fod gweithgareddau eraill wedi digwydd tu allan i'r is-grŵp yn y cyfamser. Bydd gweithdy yn cael ei drefnu yn fuan yn y flwyddyn newydd er mwyn rhoi ystyriaeth i flaenoriaethau'r is-grwp yn sgil Covid_19.<br><br>Cyfeiriwyd at y Datganiadau Ardal a'r sesiynau ymgysylltu sydd wedi eu cynnal yn ddiweddar, a fod trefniadau rhanbarthol ar faterion newid hinsawdd yn ail gychwyn. Mae'r is-grŵp yn disgwyl cyfarwyddyd ar lefel rhanbarthol. Bydd y dystiolaeth a chanfyddiadau'r datganiadau ardal yn cael eu plethu mewn i waith yr is-grŵp. Cynigwyd i Sian Williams roi cyflwyniad yn ystod cyfarfod nesaf y BGC ar y rhaglenni gwaith sy'n deillio o'r datganiadau ardal. Dywedodd DWJ fydd y wybodaeth o'r | **SW** | **03/2021** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | datganiadau ardal yn allweddol pan fyd yr asesiadau llesiant yn cael eu diweddaru.<br><br>**Yr Iaith Gymraeg**<br>Er nad oes arweinydd gan yr is-grŵp yn bresennol- maent wedi llwyddo i gynnal cyfarfod. Gwahoddwyd Guto Dafydd o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i ymuno â nhw i sôn am eu harolwg ar effaith Covid ar yr Iaith Gymraeg. Cyfeiriwyd am effaith Covid ar grwpiau cymunedol bychain sydd ddim yn cyfarfod erbyn hyn, oedd yn gyfle i ddefnyddio a hyrwyddo'r Iaith Gymraeg. Dywedodd SP fod WCVA yn bwriadu arwain ar raglen o weithio gyda grwpiau cymunedol yn y flwyddyn newydd. Awgrymwyd i NH holi SP ymhellach amdano. | **NH** | **03/2021** |
| **7)** | **Enwebiadau ar gyfer arweinydd yr is-grŵp Iaith**- Ni chafwyd enwebiadau ar gyfer y rôl. EW a NH i drafod ymhellach tu allan i gyfarfod y BGC. | **EW/NH** | **03/2021** |
| **8)** | **Adroddiad yn dilyn gweithdy ar ddigonolrwydd y ddarpariaeth cynghori ar ddyledion.**<br>Cafwyd cyflwyniad ar yr adroddiad gan NH.<br>Adroddwyd gan FfW fod dyledion rhent yn cynyddu a rhagwelir y bydd y sefyllfa'n gwaethygu. Rhagwelwyd yn ogystal effaith niweidiol diwedd y cynllun Furlough ar gyfraddau diweithdra.<br>Adroddwyd fod y gweithdy wedi ei gynnal a chytunwyd nad oedd gweithred bellach i'r BGC ar hyn o bryd. Bydd modd gwahodd sefydliadau unigol i roi cyflwyniadau / diweddariadau ar raglenni tlodi ariannol, gan gychwyn efo gwahodd y Cynghorau i'r cyfarfod ym mis Mawrth. | **NH** | **03/2021** |
| **9)** | **Adroddiad ar gyfleoedd posib i bobl ifanc dderbyn profiadau gweithio gyda'r cyrff cyhoeddus.**<br>Dywedodd SW fod CNC yn rhan o'r cynllun Kiskstart a bod diddordeb ganddynt i gydweithio.<br>Holodd EW os oes ddiddordeb mewn cydweithio ar gynnig profiadau gwaith.<br>Mewn perthynas â'r Cynllun Graddedigion adroddwyd fod y BGC wedi mynegi diddordeb yn y cynllun. Holwyd os oedd yna dri sefydliad yn awyddus i gydweithio arno. Dywedodd SR fod y Llywodraeth wedi ymrwymo i'r cynllun yn y gorffennol. Holwyd os oedd gan LlC ddiddordeb mewn ymrwymo eto eleni. Cytunwyd i Nonn a Sioned drafod ymhellach | **NH/SR** | **03/2021** |
| **10)** | **Heriau a Chyfleon**<br>Dim i'w nodi | | |
| **11)** | **Sylwadau a chwestiynau o Bwyllgorau Craffu Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn**<br>Rhannwyd rhai o gwestiynau a sylwadau sy'n codi yn bwyllgorau craffu, sy'n derbyn sylw pellach gan dîm cefnogi'r BGC: | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ▪ I ba raddau mae ffrydiau gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyfrannu at lesiant trigolion Gwynedd a Môn, a pha effaith mae'r gwaith wedi ei gael ar y cymunedau?<br>▪ Faint o fwydo'n ôl sydd wedi bod rhwng cyfarfodydd o'r pwyllgorau craffu a chyfarfodydd y GC, a beth yw effaith hyn ar waith y BGC<br>▪ I bwrpas craffu gwaith y BGC bydd angen y wybodaeth ganlynol ar y pwyllgorau craffu: mesuriadau, targedau, data, a'r llwyddiannau. | | |
| **12)** | **Cadeiryddiaeth y BGC**<br><br>Cadarnhawyd nad oedd enwebiadau wedi eu hanfon at Nonn. Bydd yr eitem yn parhau ar yr agenda. | | |
| **13)** | **Unrhyw fater arall**<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn wedi gofyn i'r BGC awdurdodi eu cais grant Pathfinders i LC. Mae'r cais yng nghyd fynd â gweledigaeth yr is-grŵp iechyd a gofal. FfJ/ EW i awdurdodi. | Ffj/ EW | |